General Medical Council

Datganiad o Ddiben Fforwm Cynghori'r DU

Pwrpas

1 Pwrpas Fforymau Cynghori'r DU (Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon) yw rhoi cyngor i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol i sicrhau bod ei weithgareddau a'i bolisïau yn gyfartal o ran eu defnydd a'u heffeithiolrwydd ledled y DU. Mae'r fforymau'n rhoi llwyfan i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol rannu ei syniadau ar flaenoriaethau a heriau allweddol gyda grwpiau diddordeb allweddol a phartneriaid cyflenwi; mae hefyd yn rhoi cyfle i drafod gyda grwpiau diddordeb a phartneriaid unrhyw faterion y maent yn dymuno eu codi yng nghyd-destun gwaith y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn eu maes nhw.

Dyletswyddau a gweithgareddau

2 Bydd Fforymau Cynghori'r DU yn helpu'r Gweithredwr i gefnogi rôl y Cyngor o ran sicrhau bod y sefydliad yn ymgysylltu'n effeithiol â grwpiau buddiant, a bod ei bolisïau'n addas ar gyfer y cyd-destun ym mhob rhan o'r DU. Bydd y fforymau'n cynghori'r Prif Weithredwr drwy wneud y canlynol:

- Darparu lleoliad strwythuredig ar gyfer arweinyddiaeth y Cyngor Meddygol Cyffredinol i gymryd rhan mewn trafodaeth ar flaenoriaethau tymor canolig a thymor hir gyda grwpiau diddordeb allweddol.
- Gwneud yn siŵr eu bod yn gallu rhannu a thrafod datblygiadau polisi'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn gynnar.
- Gwneud yn siŵr eu bod yn gallu rhannu a thrafod barn grwpiau diddordeb allweddol ar faterion y mae angen rhoi sylw iddynt.
- Annog nodi a thrafod meysydd o ddiddordeb a allai arwain at waith yn y dyfodol.

Aelodaeth

3 Bydd Fforymau Cynghori'r DU yn cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau diddordeb allweddol a phartneriaid cyflenwi ym mhob cyd-destun daearyddol.

4 Cadeirydd y Cyngor Meddygol Cyffredinol fydd yn cadeirio pob un o'r fforymau (neu'r Prif Weithredwr os na fydd y Cadeirydd ar gael). Bydd aelodau eraill o Gyngor llywodraethu'r Cyngor Meddygol Cyffredinol - a staff y Cyngor Meddygol Cyffredinol - hefyd yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol.

Trefniadau gweithio

5 Disgwylir i bob Fforwm Cynghori'r DU gyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Byddant yn ymgynghori'n dda ac yn cefnogi cyd-ddealltwriaeth o'r materion pwysig ym mhob gwlad. Maent yn debygol o gael eu cynnal yn Swyddfeydd Cenedlaethol y Cyngor Meddygol Cyffredinol lle mae'r cyfleusterau'n addas, neu mewn amgylchedd tebyg os nad yw'r cyfleusterau hynny'n addas. Lle bo'n bosibl, cynhelir y fforymau drwy fideo-gynadledda i hwyluso mewnbwn staff (a phresenoldeb arall mewn cyfarfodydd, os oes angen).

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) ac yn yr Alban (SC037750).

6 Bydd agendâu yn gyfuniad o themâu trawsbynciol a drafodir ym mhob un o'r fforymau, a materion datganoledig a nodwyd ar gyfer pob cyfarfod. Gall mewnbwn i'r cyfarfodydd fod ar ffurf papurau neu gyflwyniadau sleidiau, a bydd y rhain yn cael eu dosbarthu ymlaen llaw. Bydd agendâu, papurau a chrynodebau o drafodaethau Fforwm Cynghori'r DU yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor Meddygol Cyffredinol.

7 Swyddfeydd Cenedlaethol y Cyngor Meddygol Cyffredinol fydd yn darparu'r Ysgrifenyddiaeth.

8 Bydd gwaith Fforymau Cynghori'r DU yn cael ei adrodd i'r Bwrdd Gweithredol, sy'n adrodd i'r Cyngor drwy'r Prif Weithredwr.